**PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**12 Mai 2021**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker, Dr R Heath Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

[Roedd y Cynghorydd P Harries, Cadeirydd yr Awdurdod, yn bresennol yn rhinwedd ei swydd am ran o'r cyfarfod (gweler Cofndion 5 – 12).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -12.50pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Mr G Jones.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10$^{fed}$ o Chwefror 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10$^{fed}$ o Chwefror 2021.

**4. Diogelu Data**
Roedd Sarah Burns o Data2Action, oedd wedi'i phenodi yn ddiweddar yn Swyddog Diogelu Data yr Awdurdod, wedi cyflwyno'i hun ac wedi egluro sut fyddai'n cefnogi'r Awdurdod. Aeth rhagddi i nodi'r gweithgareddau allweddol y byddai'n eu cyflawni yn ystod y misoedd nesaf – ymhlith y rhain oedd cynnal gwerthusiad GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data), gan edrych ar bolisïau a thempledi yr Awdurdod oedd yn berthnasol, ymgymryd â hyfforddiant, a rhoi cefnogaeth ymarferol ar faterion megis Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data a Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan destun y data hwnnw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am gyflwyniad cynhwysfawr, ac roedd yr Aelodau'n edrych ymlaen at dderbyn adroddiadau ganddi yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd P Baker nad oedd wedi gallu gweld y cyflwyniad oherwydd problemau cysylltiad, ond ei fod wedi clywed y cyflwyniad. Cytunodd y Cynorthwyydd Gwasanaethau Democrataidd a Gweithredol i anfon copi ato ar ôl y cyfarfod.

**NODWYD.**

5. **Cynllun Archwilio Cymru 2021**
Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Deryck Evans o Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Eglurodd bod y Cynllun Archwilio yn nodi'r rhaglen waith am y flwyddyn sydd i ddod, ac roedd y rhaglen hon ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd y gwaith mewn dwy ran - archwiliad o ddatganiadau ariannol am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar Fawrth 2021, ac archwiliad o berfformiad fyddai'n asesu'r perfformiad a'r trefniadau cywir ar gyfer gwerth am arian. Byddai mwy o fanylion am yr archwiliad o berfformiad ar gael maes o law. Dywedodd y disgwylid y byddai gostyngiad bach yn y ffi Archwilio am y flwyddyn sydd i ddod oherwydd uno rolau'r Arweinydd Ymgysylltu a'r Rheolwr Archwilio. Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y gwaith, a chadarnhaodd Mr Evans y byddai'r canlyniadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor hwn neu i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld gostyngiad yn y ffioedd a gofynnwyd a oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael ynghylch cwmpas neu hyd yr archwiliad o berfformiad. Roedd Mr Evans yn rhagweld y byddai'r gwaith yn cymryd tair wythnos, yn ystod y flwyddyn, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod ar ddeall y byddai'r archwiliad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd yr Awdurdod o ran rheoli twristiaeth gynaliadwy.

O ran yr archwiliad ariannol, dywedodd y Rheolwr Cyllid mai ei obaith oedd gallu cau'r cyfrifon mewn pryd i'r archwiliad gael ei gynnal erbyn mis Gorffennaf, ond bod estyniad wedi'i ganiatáu tan fis Medi, ac y byddai'r cyfrifon yn bendant wedi'u cau erbyn y dyddiad hwnnw.

Roedd yr adroddiad yn nodi y byddai'r materion eraill sydd i'w harchwilio yn cynnwys adolygiad o barodrwydd i gyflwyno 16 Prydles IFRS (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol). Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Mr Evans bod hyn yn ymwneud â newid yn y modd y mae prydlesi yn cael eu dosbarthu ar fantolen yr Awdurdod, ac y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r swyddogion i ganfod pa mor barod yw'r Awdurdod i gyflwyno'r safon hon yng nghyfrifon 2021/22.

Roedd Mr Evans hefyd wedi cyfeirio at y ffaith y byddai'r Archwiliad yn edrych ar amcangyfrifon o wyliau blynyddol cronedig gan fod lefelau uwch wedi bod yn broblem ar draws nifer o awdurdodau. Cwestiynodd un Aelod rôl Archwilio o ran rheoli absenoldeb, gan ddweud y gallai cario gwyliau ymlaen helpu i reoli llwyth gwaith. Sicrhaodd yr Archwilydd y Pwyllgor na fyddai ei ymchwiliadau yn ymwneud â darparu gwasanaeth, ond yn hytrach yr effaith atebolrwydd ariannol ar yr Awdurdod o gario gwyliau drosodd i'r flwyddyn ariannol ddilynol. Ychwanegodd y Rheolwr

Cyllid nad oedd o’r farn y byddai'r cynnydd yn lefel y gwyliau oedd heb ei gymryd dros y blynyddoedd blaenorol yn sylweddol i’r Awdurdod. Cytunodd y Rheolwr Adnoddau Dynol y gellid cyflwyno adroddiad ar y lefelau gwyliau blynyddol a salwch i'r Pwyllgor Personél.

**NODWYD.**

**6. Adroddiad Cynnydd ar Reoli Coed sydd â Chlefyd Coed Ynn**

Dywedwyd bod Clefyd Coed Ynn yn glefyd coed a achosir gan y ffwng Hymenoscyphus fraxineus, sy’n effeithio ar yr Onnen Gyffredin, a chlefyd sydd bellach yn endemig yn y DU ac sydd wedi ymledu’n eang yn Sir Benfro. Byddai coed heintiedig yn dod yn ansefydlog yn y pen draw, y canghennau yn cwympo ac yn dod yn risg bosibl i'r cyhoedd. Roedd coed marw hefyd yn peri mwy o risg yn ystod gweithrediadau cwympo coed.

Roedd coed ar ystâd yr Awdurdod yn cael eu harchwilio yn gyson fel rhan o Bolisi Diogelwch Coed yr Awdurdod, a hynny fel arfer wrth gynnal yr asesiad risg safle blynyddol ac ar ôl tywydd garw. Fodd bynnag, yn 2019 cytunwyd y dylid cynnal arolwg ychwanegol o’r clefyd coed ynn ar bob safle sy'n eiddo i’r APCAP oherwydd bod y clefyd yn lledaenu’n gyflym a bod rhai coed yn dirywio’n gyflym. Nodwyd rhagor o fanylion yn yr adroddiad.

Fel rhan o'r broses hon rhannwyd pob safle yn barthau yn ôl y defnydd a wneir ohonynt, gyda rhai safleoedd yn cynnwys sawl parth yn dibynnu ar amlder yr ymweliadau gan y cyhoedd neu'r staff. Cynhaliwyd arolwg o bob safle Parth 1 yn ystod haf 2020, pan oedd y coed yn eu dail a'r clefyd ar ei fwyaf amlwg, a chymerwyd camau adferol yn ystod gaeaf 2020/21. Byddai’r coed yn parhau i gael eu monitro bob tri neu chwe mis, a’r arolygon yn defnyddio'r feddalwedd Arc Online a ddefnyddir gan yr Awdurdod.

Dywedwyd bod 73% o goed ynn wedi cael eu harchwilio hyd yn hyn, a bod rhyw 50% ohonynt wedi’u heffeithio’n sylweddol gan y clefyd. Erbyn hyn, roedd y gwaith o waredu pob un o'r 42 coeden a glustnodwyd ar gyfer eu cwympo, bellach wedi’i gyflawni. Byddai'r coed hyn yn cael eu disodli gan goed o rywogaeth wahanol. Byddai'r archwiliadau yn parhau ym Mharth 1, a byddai coed ym Mharth 2 a rhai o Barth 3 yn cael eu harchwilio yn ystod yr haf sydd i ddod.

Yn absenoldeb y Rheolwr Gweithrediadau, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr a gyflwynodd yr adroddiad. Roedd yr Aelodau o'r farn bod yr adroddiad yn un calonogol, ac roeddent yn hyderus bod swyddogion yr Awdurdod yn rheoli'r sefyllfa. Fodd bynnag, nodwyd y byddai parhau i waredu coed ynn gan asiantaethau ar draws y sir yn cael effaith weledol ar rinweddau arbennig

y Parc Cenedlaethol. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr Asesiadau o Gymeriad y Dirwedd oedd yn sail i benderfyniadau'r Awdurdod ar faterion cynllunio, a dywedodd y byddai'n gofyn i'r tîm Polisi Cynllunio a oedd cynlluniau ar droed i ddiweddaru'r gwaith hwnnw.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau am y coed hynny sydd ar dir preifat ond yn agos at lwybr troed cyhoeddus, er enghraifft. Atebodd y Cyfarwyddwr bod yr Awdurdod ond yn gyfrifol am goed ar ei ystâd ei hun, er ei fod yn gweithio'n agos â pherchnogion tir ac asiantaethau eraill.

**NODWYD.**

**7. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2021**

Roedd yr Adroddiad Perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun mewn dwy ran – roedd y rhan gyntaf yn seiliedig ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau tymor byr a thymor canolig oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 ac ar gynllunio adferiad, tra bod yr ail ran yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith oedd yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn y tymor hwy a'r effeithiau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddai'r rhan hon, wrth symud ymlaen, yn rhoi mewnwelediad i effaith COV ID-19 a'r adferiad ar gyflawni prosiectau ar draws yr amcanion llesiant yn y tymor hir. Roedd rhai gweithgareddau o fewn ffrydiau gwaith wedi cymryd camau ymlaen yn ystod 2020/21. Serch hynny, cafodd nifer ohonynt, yn enwedig y rhai oedd yn golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, eu heffeithio oherwydd codi neu ailgyflwyno cyfyngiadau a rheoliadau, neu gan yr Awdurdod yn gorfod addasu neu ail-flaenoriaethu ei waith i ganolbwyntio ar ymatebion cysylltiedig â COVID 19.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad y flwyddyn ariannol gyfan 20/21 (nid 19/20 fel y nodwyd yn yr adroddiad) ar gyfer mwyafrif y setiau data misol a chwarterol. Amlygodd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth nifer o fesurau a chamau gweithredu i'r Pwyllgor mewn perthynas â chyfyngiadau ac adferiad COVID-19, gan nodi, yn unol â chynllunio adferiad ac asesiadau risg perthnasol, bod gwasanaethau wyneb yn wyneb a addaswyd wedi ailgychwyn yn ôl yr hyn a ganiatawyd gan y cyfyngiadau yn ystod Ch2 a Ch3, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ymgysylltu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, roedd ail-gyflwyno cyfnod clo yn ystod Ch4 yn golygu dychwelyd i weithio o bell ar draws pob tîm. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd roedd wedi bod yn bosibl parhau i addasu gwasanaethau drwy ddefnyddio cyfleoedd digidol ar gyfer dulliau rhithiol neu hybrid.

Roedd y llwyth gwaith oedd wedi ôl-gronni, problemau gyda systemau TG allanol, a chyfyngiadau ar fynediad i'r swyddfa ac ymweliadau safle

wedi effeithio ar berfformiad y gwasanaethau cynllunio yn ystod y flwyddyn. Roedd mynediad i'r swyddfa a gwneud ymweliadau hanfodol personol â safleoedd, bellach wedi ailddechrau, ond serch hynny, roedd effaith y materion hyn wedi'i amlygu yn y mesurau cynllunio chwarterol, er y gwelwyd gwelliant mewn perfformiad rhwng Ch3 a Ch4 a bod % pob cais cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser hyd yma eleni wedi symud o sgôr coch i sgôr oren ar 66.31%.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar waith tuag at yr amcanion tymor hwy. Fodd bynnag, roedd COVID 19 wedi cael effaith ar gyflawni rhai gweithgareddau oedd yn cyfrannu at yr amcanion hynny.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad llawn gwybodaeth a hawdd ei ddarllen oedd yn amlygu gwaith caled y swyddogion mewn amgylchiadau anodd. Nodwyd bod nifer o ddangosyddion wedi'u graddio â sgôr goch neu oren, yn enwedig mewn perthynas ag Adnoddau Dynol a gorfodaeth cynllunio, a gofynnwyd a oedd yr adnoddau yn y meysydd hyn yn ddigonol. Eglurodd y Rheolwr AD y bu nifer o alwadau ar ei amser oedd wedi golygu nad oedd prosiectau wedi cael eu symud ymlaen fel y byddai wedi dymuno. Fodd bynnag, roedd pethau'n dechrau dychwelyd i normal, a byddai'n llunio cynllun i sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn dychwelyd ar y trywydd iawn. Wrth gydnabod yr amgylchiadau anodd, dywedodd yr Aelodau y byddai hynny'n ddefnyddiol i ddeall pa waith oedd wedi'i flaenoriaethu.

Atebodd y Prif Weithredwr ei bod yn anochel bod cyfyngiadau Covid wedi cael effaith ar waith yr Awdurdod gan fod y swyddfa wedi gorfod bod ar gau yn ystod y chwe mis blaenorol. Hefyd o ran gorfodaeth, nid oedd y swyddogion gorfodi wedi gallu ymweld â safleoedd; fodd bynnag, roedd y mater hwn yn cael ei fonitro. Ychwanegodd nad oedd yn pryderi am y diffyg cynnydd ar y Safon Iechyd Corfforaethol, gan mai'r flaenoriaeth oedd gofalu am les y staff, yn hytrach na dogfennu hyn er mwyn sicrhau'r safon; dywedodd y byddai'r camau oedd wedi'u cymryd yn dystiolaeth ddefnyddiol ymhen amser o'r gefnogaeth a roddwyd i'r staff dros y flwyddyn flaenorol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, aeth ymlaen i roi gwybodaeth ychwanegol am y prosiect caffael arfaethedig, a'i obaith y byddai Llywodraeth Cymru yn rhyddhau'r Cyfrifiannell Carbon cyn hir.

**NODWYD.**

**8. Diweddariad ar Iechyd a Diogelwch**

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a damweiniau rhwng Ionawr a Mawrth 2021, mentrau lles y staff,

hyfforddiant a’r effeithiau ar safleoedd yr Awdurdod, a thrwy hynny ar arferion gwaith y staff, o ganlyniad i gyfyngiadau’r coronafeirws.

O ran digwyddiadau, dywedwyd na chafwyd adroddiadau am unrhyw ddigwyddiadau fu bron â digwydd, a gofynnodd yr Aelodau a oedd y staff yn cael eu hannog i roi gwybod am y digwyddiadau hyn, gan awgrymu y gallent liniaru achosion sy'n arwain at anafiadau. Dywedodd y Rheolwr AD bod y Grŵp Iechyd a Diogelwch yn adolygu pob damwain a digwyddiad i weld pa wersi y gellid eu dysgu, ac y byddai system ar-lein ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn cael ei chyflwyno y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, cytunodd bod nodyn atgoffa rheolaidd i’r staff am bwysigrwydd cofnodi damweiniau fu bron â digwydd yn bwysig, ac y byddai'r nodiadau atgoffa hyn yn cael eu dosbarthu drwy'r cylchlythyr staff yn y dyfodol.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb hefyd yn y wybodaeth a roddwyd gan y Rheolwr AD ar raglen beilot ar hyfforddi oedd yn cael ei datblygu i helpu staff i ddatblygu sgiliau cydnerthedd. Gofynnwyd a ellid cynnig y rhaglen hon i'r Aelodau yn ogystal. Cytunodd y Rheolwr AD y byddai manylion pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Personél, ac unwaith y byddent wedi’u treialu, y byddai ar gael i bob aelod o staff ac i’r Aelodau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai clustnodi’r rhai fyddai’n elwa o’r rhaglen yn cael ei wneud drwy’r adolygiadau blynyddol, ac anogodd yr Aelodau i dynnu sylw at eu hanghenion hwy mewn modd tebyg.

**NODWYD.**

**9. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf, oedd wedi’i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Amlygwyd y prif newidiadau ers yr adroddiad blaenorol mewn tabl cryno yn unol â chais Aelodau’r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

Holodd yr Aelodau ynghylch nifer o risgiau, gan awgrymu y gallai risgiau sy’n gysylltiedig â Covid (rhifau 45 a 46) elwa o ddadansoddi pellach i amlygu’r heriau o ran lles y staff, cynhyrchu incwm, ac adferiad yn dilyn gwaith yn ôl-gronni. Cytunodd y swyddogion â'r awgrym hwn. Hefyd holodd yr Aelodau am y sefyllfa yng Nghilrhedyn (Risg 38), ac ar ôl egluro bod y Ganolfan bellach yn ganolfan i Dîm Warden y Gogledd, atebodd y Prif Weithredwr nad oedd y safle bellach, ar ôl meddwl, yn risg benodol ac y byddai’r cofnod yn cael ei ddileu o'r gofrestr.

**NODWYD.**

**10. Adroddiad ar yr Archwilio Mewnol 2020/21**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r Archwilydd Mewnol, Mr Jonathan Maddock, gan ddweud bod yr adroddiad yn ganlyniad gwaith a gwblhawyd yn erbyn bloc dau o'r Cynllun Archwilio Gweithredol 2020/21 a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Pwyllgor.

Roedd adroddiadau Archwilio Mewnol yn cael eu cyflwyno ar faterion sy'n ymwneud â Cheisiadau Cynllunio a Ffioedd, Cynhyrchu Incwm, Crynodeb o'r Sicrwydd ynghylch Rheolaethau Mewnol (SICA), a'r Adroddiad Blynyddol. Nodwyd y byddai adroddiad pellach ar Seiberddiogelwch yn cael ei ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

O'r archwiliadau hyn, gan ystyried risg gymharol y meysydd busnes, roedd y gwasanaeth archwilio mewnol wedi dod i gasgliadau cadarnhaol iawn ar y cyfan ynghylch y polisïau, y gweithdrefnau a'r gweithrediadau sydd ar waith.

Dywedodd Mr Maddock bod adroddiad dilynol hefyd wedi'i gynhyrchu, ond nad oedd yr adroddiad dilynol hwn wedi'i atodi i'r adroddiad archwilio. Cytunodd y Prif Weithredwr i ymchwilio i hyn a'i ddosbarthu i'r Pwyllgor.

Gan ddiolch i'r Archwilydd Mewnol am ei adroddiadau, gofynnodd un Aelod gwestiwn ynghylch y sesiynau briffio ar ddatblygiadau mewn llywodraethu, risg a rheolaeth (Atodiad D o adroddiad SICA) oedd yn nodi set o gamau gweithredu a awgrymwyd, a gofynnodd a oedd y camau hyn wedi'u cymryd. Atebodd Mr Maddock bod Awdurdodau yn aml yn cynhyrchu adroddiad mewn ymateb i'r materion hyn i roi sicrwydd i'r Aelodau bod mesurau ar waith. Cytunodd Aelodau eraill y byddai'n ddefnyddiol cael ymateb i'r camau a argymhellwyd gan yr Archwilydd Mewnol, ac atebodd y Prif Weithredwr y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad eglurhaol yn y dyfodol.

**NODWYD.**

**11. Perfformiad y Gyllideb**

Dywedodd y Rheolwr Cyllid ei fod yn gobeithio y byddai'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru ar 21 Mehefin ac y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 28 Gorffennaf 2021. Fodd bynnag, roedd yn bosibl efallai na fyddent yn barod mewn pryd ac y byddent wedyn yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod fis Medi.

I grynhoi, dywedodd bod incwm i lawr yn sylweddol ar y gyllideb oherwydd bod y Canolfannau a'r meysydd parcio ar gau am rannau o'r flwyddyn. Hefyd nid oedd tâl wedi'i godi am barcio yn y pedwar maes parcio ychwanegol, ac roedd colledion eraill mewn incwm oherwydd ad-

daliadau hysbysebu yn Coast to Coast a masnachfreintiau rhent. Hefyd bu costau ychwanegol oherwydd yr angen am gyfyngu’r nifer yng ngherbydau’r Awdurdod i un person. Serch hynny, roedd yr Awdurdod wedi bod yn falch iawn o dderbyn nifer o grantiau atodol gan Lywodraeth Cymru, incwm ffyrlo a rhyddhad ardrethi. O gymryd hyn i gyd i ystyriaeth, roedd yn golygu bod disgwyl i'r Awdurdod ddangos gwarged ar ddiwedd y flwyddyn.

**NODWYD.**

**12. Eithrio’r Cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**13. Seibergadernid**

Adroddwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn dau adroddiad yn ymwneud â Seiberddiogelwch dros y flwyddyn ddiwethaf. Y cyntaf oedd adroddiad cyffredinol gan Archwilio Cymru “Adroddiad ar Seibergadernid yn y Sector Cyhoeddus” a’r ail oedd adolygiad o drefniadau Seiberddiogelwch yr Awdurdod gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod TIAA. Cyflwynwyd y ddau adroddiad i'r Pwyllgor.

Cytunodd yr Aelodau bod seiberddiogelwch o'r pwys mwyaf, a gofynnwyd am iddynt barhau i dderbyn hyfforddiant ac adroddiadau ar y mater hwn.

**NODWYD.**

**14. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i’w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021 heb eu diwygio. |